

## Y Llyfr gan Lleucu Roberts

‘Lle mae fy llyfr? Rhaid bod *un* ohonoch chi wedi’i weld!’ sgrechiodd Elin ar ei gŵr a’i thri o blant, ond y cyfan a gafodd yn ôl oedd pedwar wyneb gwag. Trodd tri ohonyn nhw yn ôl at y teledu.

‘Pa lyfr?’ holodd ei gŵr, yn mentro braidd, achos roedd Elin erbyn hyn yn rhegi o dan ei gwynt wrth agor pob un o gypyrddau’r gegin.

Clywodd Rhys sŵn chwyrnu’n dod o gyfeiriad ei wraig. ‘Sut alli di holi pa lyfr? Y llyfr! Fy llyfr *i!* Y llyfr sy gen i drwy’r amser, bob amser! ‘Pa lyfr’, wir!’

Cododd Rhys ei ysgwyddau a phenderfynu mai gwell iddo fo hefyd, fel ei blant, fasai troi ei drwyn tuag at y teledu.

Gallai Elin fod wedi taflu’r tegell ato. Sut allai o fod mor ddall, mor **anystyriol** ohoni? Roedd y llyfr wedi bod ar agor ganddi wrth ei hymyl bob dydd ers iddi briodi; cyn hynny. Ar fwrdd y gegin, ar ei desg yn y stydi, ar y bwrdd coffi yn y lolfa, ar y silff fach drws nesa i’r tŷ bach, wrth ymyl y gwely. Roedd o’n ei dilyn drwy’r tŷ bob munud o bob dydd.

Yn y llyfr, roedd Elin yn cadw trefn ar ei bywyd. Ynndo, roedd ganddi hi restrau siopa y byddai’n tynnu eu llun ar ei ffôn cyn gadael y tŷ; rhestrau o bethau i’w gwneud y byddai’n eu ticio ar ôl iddi wneud pob un yn ei dro; rhestrau o benblwyddi pawb o’r teulu hyd at y nawfed **ach**; cyfeiriadau a rhifau ffôn pawb roedd hi’n eu nabod – a rhai doedd hi ddim yn eu nabod, fel y bwrdd nwy a’r banc a’r cwmni ffôn.

Yn y llyfr, roedd hi wedi nodi llyfrau roedd hi wedi’u darllen; llyfrau roedd hi am eu darllen; ffilmiau roedd hi wedi’u gweld; ffilmiau roedd hi am eu gweld; dyfyniadau o bethau roedd hi wedi’u clywed, ac am eu cofio, fel ‘**Ucha’u cloch, llestri gweigion**’, hoff ddywediad ei nain, cwpledi gan feirdd fel Waldo a Gerallt Lloyd Owen, a disgrifiadau colofnwyr mwya **crafog** y papurau dydd Sul o wleidyddion.

Yn y llyfr hefyd, roedd ganddi nodyn o syniadau oedd yn dod i’w phen, i’w chwyddo’n straeon, neu’n gerdd, neu ddim ond i aros yno fel oedd o, yn ddim ond syniad; ffeithiau roedd hi am eu cofio am bob dim, o ddyfnder Llyn Baikal i boblogaeth Japan; drafft cynta ei llythyrau at bobl, llythyrau llongyfarch a chydymdeimlo, diolch a gofyn; ac ambell bregeth roedd hi wedi’u cofnodi yn lle eu saethu nhw at y teledu neu’r radio a **bygwth** gwylltio’r gŵr neu’r plant drwy weiddi ar ‘neb’.

Oedd, roedd Elin wedi gorfod symud o un llyfr ffisegol i’r llall wrth iddyn nhw lenwi. Silffaid o lyfrau oedd y llyfr mewn gwirionedd, a byddai’n symud pethau fel cyfeiriadau a rhifau ffôn ac ati ymlaen o un i’r llall bob blwyddyn nes bod pob llyfr yn chwarter llawn o hen bethau cyn iddi hyd yn oed ysgrifennu gair yn ei hysgrifen fwyaf taclus ar y dudalen gyntaf lân.

Ond un llyfr oedd o hefyd: llyfr bywyd Elin, ei gorffennol a’i dyfodol. Nid Beibl, nid Qu’ran, nid y Guru Grath Sahib na’r Torah na’r Fedâu - roedd o’n llawer pwysicach na’r rheini i Elin. Gofynnodd un o’r plant iddi unwaith pam nad oedd hi’n defnyddio ei ffôn i gofnodi popeth

mewn sgwaryn bach twt. Ond doedd dim posib fflicio drwy dudalennau ffôn yn yr un ffordd, a gweld beth oedd hi'n medru ei weld ar ei thaith drwy'r fflic.

'Mae cloriau lliwgar ganddo fo!' gwaeddodd ar ei theulu yn y stafell arall. 'Lluniau o'r Llyfr Kells, mae'n llyfr hyfryd, y gyfrol hardda o'r cyfan.' Doedd na **ddim smic** o'r stafell arall, dim ond sŵn y teledu.

Treuliodd Elin oriau'n chwilio am y llyfr. Symudodd y gwely a phob sofffa a dodrefnyn yn y tŷ. Chwiliodd drwy bob un o'r biniau, yn cynnwys yr un mawr gwyrdd tu allan. Edrychodd ym mhob cwpwrdd a drôr, nes bod eu cynnwys yn colli dros y lloriau. Bron i Rhys ddweud wrthi fod y lle'n edrych fel tasai'r heddlu cudd wedi bod yn chwilio am gyfrinachau yn erbyn y **wladwriaeth**, ond cnodd ei dafod a phenderfynu gwneud swper yn lle hynny, am unwaith.

Eisteddodd Elin ar y gwely, yn un bwndel o dymer a dagrau. Roedd hi'n gwybod bod ganddi hi lyfr arall, un â llun gan Kyffin Williams ar ei gloriau, yn barod at pan fyddai'r un **cyfredol** yn llawn. Ond doedd hi erioed wedi symud ymlaen at lyfr arall heb symud y pethau pwysica o un i'r llall o'r blaen, ac roedd gwybod bod twll yn y silff, bwlch yn ei bywyd, yn ei gwneud hi'n anesmwyth drosti. Ceisiodd gofio rhai o'r pethau roedd hi wedi'u cynnwys yn y llyfr coll, ond roedden nhw o'i chyrraedd. Roedd hi wedi **buddsoddi** popeth yng ngallu'r llyfr i gadw, i drysori, i gofio drosti hi.

A dyma fo wedi diflannu!

\*

Deffrodd Elin, a theimlo'i hwyneb yn stiff o ddagrau wedi sychu. Roedd Rhys yn **chwyrnu** yn y gwely wrth ei hymyl. Eisteddodd ar ymyl y gwely am eiliad yn anadlu'n ddwfn. Yna, cododd yn ddistaw bach ac anelu am y stydi.

Agorodd y drôr, a thynnu'r llyfr â llun gan Kyffin ar ei glawr allan. Estynnodd am un o'r beiros gorau fel roedd hi'n gwneud bob tro wrth ddechrau llyfr newydd.

Agorodd y llyfr. Yn ofalus, gwasgodd ymyl fewnol y papur i wneud y dudalen yn **llyfn**. Efallai mai torri'r **llinyr bogel** oedd y ffordd orau o gamu ymlaen, meddyliodd. Os oedd rhywbeth o ddifri'n werth ei gadw ynddo, fe fasai'n dod yn ôl iddi.

Doedd hi ddim yn hollol siŵr fod hynny'n wir, ond gan nad oedd ganddi hi ddewis mwyach, penderfynodd ei gredu.

Edrychodd Elin ar y dudalen wag. Sut oedd dechrau? Lle roedd dechrau? Y manylion cychwynnol, beth oedden nhw? Neu a fyddai'n well dechrau gyda rhywbeth ystyrion, rhyw ddyfyniad, rhyw wirionedd mawr y byddai'r llyfr hwn yn ei warchod am byth. Doedd hi ddim am ei adael o'i golwg o hyn allan.

Beth fyddai'r geiriau cynta? Beth fyddai'r *gair* cynta? Roedd angen iddo fod yn iawn, on'd oedd? Roedd Elin am i'r gair cynta **fendithio**'r dudalen, nid ei **lygru**.

Syllodd ar y dudalen wag.

\*\*\*\*\*

## Geirfa

anystyriol - *inconsiderate*

ach – *generation/*

*ancestry/ lineage*

ucha’u cloch, llestri

gweigion – (idiom - y

bobol efo lleia i ddeud

sy’n gwneud y mwya o

sŵn)

crafog – *satirical*

bygwth – *to threaten*

dim smic - dim sŵn o

gwbl

gwladwriaeth - *state*

cyfredol – *current*

buddsoddi – *to invest*

chwyrnu – *to snore*

llyfn - *smooth*

llinyn bogel – *umbilical*

*cord*

bendithio – *to bless*

llygru – *to pollute*